Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Diweddariad Effaith ac Ymgysylltu

## Ein heffaith Hydref 2022 - Chwefror 2023

Rydym yn falch o'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni gyda chi ac ar eich rhan dros y 5 mis diwethaf, yn cynnwys:

**Dylanwadu i sicrhau newidiadau sy'n eich helpu i gyflawni**

- Gan weithio gydag aelodau, fe wnaethom sicrhau setliad rhent o 6.5% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Fe wnaethom ddyfnhau dealltwriaeth o ymagwedd cymdeithasau tai at osod rhenti fforddiadwy drwy'r modelu llyfr agored a chyfarfodydd gydag Aelodau o'r Senedd.

- Drwy dynnu sylw at bryderon y sector, fe wnaethom helpu i sicrhau cynnydd interim i'r Model Hyfywedd Safonol ac ymrwymiad i adolygiad llawn ym mis Chwefror 2023.

- Ar ôl sicrhau'r gohiriad angenrheidiol i ddyddiad gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, fe wnaethom gefnogi aelodau i baratoi yn cynnwys darparu gofod a gaiff ei rannu ar gyfer swyddogion ac aelodau Llywodraeth Cymru. Fe wnaethom hefyd sicrhau newidiadau deddfwriaethol i'r weithdrefn amrywiad rhent.

- Mewn partneriaeth gyda Cymorth a'n haelodau, rydym yn ymgyrchu ar gyfer cynnydd cysylltiedig â chwyddiant i'r Grant Cymorth Tai yng nghyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24. Rydym wedi sicrhau cefnogaeth trawsbleidiol gan Aelodau o'r Senedd, yn cynnwys argymhelliad clir gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Tai wrth graffu ar y gyllideb ddrafft.

- Fe wnaeth ein gwaith dylanwadu gydag Aelodau'r Senedd a Llywodraeth Cymru helpu i warchod y Grant Tai Cymdeithasol rhag toriadau oherwydd pwysau chwyddiant o fewn cyllideb 2023/24 Llywodraeth Cymru.

- Rydym wedi parhau i alw am SATC2 ymarferol ac a gaiff ei ariannu'n llawn, ac i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynllun realistig gyda'r sector. Disgwyliwn gynnig diwygiedig gan Lywodraeth Cymru yn y misoedd nesaf fel canlyniad i'n hymgysylltiad parhaus.

- Fe wnaethom sicrhau cefnogaeth y Gweinidog ar gyfer tariff cymdeithasol fel rhan o'n gwaith i liniaru'r cynnydd mewn costau byw ar denantiaid cymdeithasau tai. Gan ddefnyddio tystiolaeth gan ein haelodau, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad *Amser i Weithredu* sy'n gwneud argymhellion ar sut i liniaru effaith yr argyfwng costau byw ar denantiaid a chymdeithasau tai a chawsom gyfarfod gyda Jane Hutt AS, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, i sicrhau cefnogaeth.

- Cawsom ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r pwysau ar y landlordiaid hynny sydd ag elfen gofal mawr yn eu darpariaeth. Fe wnaethom hefyd gysylltu aelodau ein rhwydwaith gofal a chymorth gyda Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a phartneriaid eraill i adeiladu dealltwriaeth o gymdeithasau tai a chyfrannu at gomisiynu a chyllido datblygu polisi.

- Arweiniodd ein gwaith dylanwadu ar effaith canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar

ffosffadau at ffocws ar drin heriau datblygu o fewn Cynllun Gweithredu yr Uwchgynhadledd Afonydd a gynhaliwyd gan y Prif Weinidog, edrych yn ddwfn gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi blaenoriaeth i adolygu caniatâd o fewn safleoedd datblygu cymdeithasau tai.

- Yn dilyn ein tystiolaeth, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ysgrifennu at awdurdodau lleol a'u hannog i egluro llwybrau lleol i gael mynediad i gymorth ariannol o'r Gronfa Atal Digartrefedd.

- Gan ddefnyddio tystiolaeth gan ein haelodau gwnaethom weithio gyda ffederasiynau tai eraill y Deyrnas Unedig i ddylanwadu ar yr adolygiad a arweiniodd  y Trysorlys ar y Cynllun Cymorth Biliau Ynni i sicrhau cynnwys cymdeithasau tai fel busnesau hanfodol ar gyfer cefnogaeth barhaus ar ôl mis Mawrth 2023.

- Fe wnaethom gefnogi ein haelodau i ymdrin â mwy o graffu ar gyflwr gwael cartrefi, gyda ffocws neilltuol ar broblemau lleithder a llwydni, yn cynnwys drwy sesiynau gwybodaeth llafar ac ysgrifenedig a gweithio gyda phartneriaid allanol ar eu hymatebion. Rydym wedi cyflwyno gweithdrefn cymorth estynedig i aelodau sy'n wynebu craffu gan y wasg a/neu y cyhoedd am leithder a llwydni yn eu cartrefi, yng golau'r sylw cynyddol mewn misoedd diweddar. Rydym hefyd mewn sefyllfa i roi sylwadau ar faterion sy'n codi ar draws y sector.

- Fe wnaeth ein cyhoeddiadau a hyrwyddo cynnwys strategol helpu ymhellach i gefnogi gwybodaeth y cyhoedd a'r wasg o faterion allweddol tai cymdeithasol, a chywirdeb mewn sylw yn y cyfryngau. Yn ychwanegol, defnyddiwyd ein hyb gwefan costau byw i ddangos sut mae'r sector yn cefnogi tenantiaid gyda phrosiectau llawr gwaled a gweithio partneriaeth i gynulleidfaoedd allanol.

- Rydym wedi eich hysbysu am ddigwyddiadau cyllidol a pholisi allweddol sy'n effeithio ar gymdeithasau tai yn cynnwys cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, datganiad cyllidol Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyhoeddiad BEIS ar ynni.

**Rhoi cyfleoedd i chi gysylltu a rhoi gwybodaeth i chi yn gyson**

- Yn y cyfnod rhwng 4 Hydref 2022 a 16 Chwefror 2023, cynhaliodd CHC 25 digwyddiad (yn cynnwys 14 cyfarfod o'r Grwpiau Cyflenwi Strategol) a fynychwyd gan 654[1] aelod staff/bwrdd 34 cymdeithas tai (100% o'r aelodaeth).

- Fe wnaethom dreialu cyfleusterau cyfieithu yn llwyddiannus yn un o'n digwyddiadau ar-lein ac yn ymchwilio cyfleoedd i ddatblygu hyn ymhellach lle mae'n briodol i wneud hynny.

- Cafodd ein Cynllun Corfforaethol newydd ei ddatblygu gyda gwybodaeth gan ein haelodau a'n rhanddeiliaid.

- Dychwelodd ein Cynhadledd Flynyddol ym mis Tachwedd. Dangosodd yr adborth gan y rhai a fu'n bresennol eu bod yn falch i ddychwelyd i amgylchedd cynhadledd wyneb yn wyneb. Roedd hefyd ganmoliaeth sylweddol i'r sesiwn ar wrth hiliaeth a gyflwynwyd gan yr Athro Uzo Iwobi MBE.

- Mae'r cynlluniau yn mynd rhagddynt yn dda ar gyfer y gynhadledd gyntaf eleni, gyda'n Cynhadledd Llywodraethiant i gael ei chynnal ar 21-22 Mawrth. Edrychwn ymlaen at eich gweld yno.

- Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ac aelodau i adolygu ein modelau darparu gwasanaeth i sicrhau fod ein cynnig i aelodau yn parhau i fod yn effeithiol ac yn rhoi gwerth gwych am arian.

[1] Dylid nodi fod y ffigur hwn yn cyfeirio at faint o weithiau y mae aelod o staff/bwrdd cymdeithas tai wedi mynychu digwyddiad yn hytrach na pwyntiau cyswllt unigryw.

## Beth fu'n digwydd yn CHC?

Fel sefydliad, rydym yn parhau i ddatblygu ein staff a phrosesau i'n galluogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i chi. Mae hyn yn cynnwys:

- Fe wnaethom anfon arolwg pyls atoch ym mis Medi i ddeall canfyddiad aelodau o CHC. Cawsom 11 ymateb gan Brif Weithredwyr a chaiff y sgorau gwerth eu hamlinellu isod:
    - Mae CHC yn darparu gwybodaeth amserol a chymesur - 85%
    - Mae CHC yn gweithio ar faterion sydd o bwys i'w sefydliad – 85%
    - Mae CHC yn rhoi cefnogaeth berthnasol a defnyddiol iddyn nhw a'u sefydliad – 82%
    - Mae ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gwybod gyda phwy i gysylltu yn CHC - 84%
    - Mae CHC yn ymateb i geisiadau yn amserol a phrydlon - 80%
    - Mae cynnig CHC yn cynrychioli ymatebwyr, eu sefydliadau a'r cymunedau a wasanaethant - 78%

- Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'n strwythur. Ein nod yw ychwanegu mwy o adnoddau i'r gwasanaethau sy'n dod i gyswllt gydag aelodau, symleiddio ein strwythurau a sicrhau ei fod yn ateb anghenion busnes o bell yn well.
- Rydym yn cynnal adolygiad annibynnol o'n llywodraethiant.

Rydym wedi gweithio'n galed drosoch a hefyd gyda chi dros y 12 mis diwethaf, fodd bynnag sylweddolwn fod heriau mawr yn dal i wynebu ein sector. Mae costau byw, cynnydd mewn costau, datgarboneiddio a safonau ansawdd newydd yn parhau i brofi'r sector, ei wytnwch a'i allu i ymateb i newid. Byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i'r materion hyn er mwyn gostwng a lliniaru'r risgiau a wynebwch a chreu cyfleoedd i'r sector ffynnu. Byddwn yn lansio ein Cynllun C orfforaethol newydd ym mis Ebrill ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda chi, er mwyn gwneud Cymru yn wlad lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb.